**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/AIL/3705/22

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Gyfeillion

Rwyf yn cyhoeddi heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, fanylion y Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2023-24 (y Setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru (awdurdodau). Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Fel y gwyddoch nid oedd yr arian a gyhoeddwyd yn natganiad hydref y Canghellor yn ddigonol i ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn yr heriau aruthrol a achoswyd gan chwyddiant dihafal. Er bod rhywfaint o arian ychwanegol i Gymru yn Natganiad yr Hydref – £1.2 biliwn dros ddwy flynedd – fe ddaeth bron i hanner hynny o benderfyniadau a gafodd eu gwneud ynglŷn â pholisi ardrethi annomestig yn Lloegr. Ni fydd hyn yn llenwi'r bylchau mawr yn setliad Cymru dros y cyfnod adolygu gwariant tair blynedd (2022-23 i 2024-25).

Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol yw blaenoriaethau'r Llywodraeth hon o hyd. Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwy'n amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd llywodraeth leol ar gyfer 2023-24 yn £5.5 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 7.9% yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2023-24 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Ni fydd yr un awdurdod yn derbyn cynnydd o lai na 6.5% o gynnydd.

Mae'r dyraniad dangosol o gyllid refeniw craidd ar lefel Cymru ar gyfer 2024-25 hefyd wedi cynyddu a bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer y grant cymorth refeniw yn rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer 2023-24. Mae effaith rhewi'r lluosydd yn parhau am yr ail flwyddyn, yn ogystal â'r rhyddhad ardrethi trosiannol (er ei fod ar gyfradd is yn 2024-25). Mae'r cyllid allanol cyfun ar gyfer 2024-25 yn £5.69 biliwn sy'n cyfateb i gynnydd o £169 miliwn. Ffigwr dangosol yw hwn ac mae'n ddibynnol ar ein hamcangyfrifon presennol o incwm ardrethi annomestig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol, rwyf wedi ymateb i'r angen i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i barhau i dalu'r costau ychwanegol a fydd yn deillio o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal.

O ganlyniad i benderfyniadau gwario a wnaed mewn perthynas ag addysg yn Lloegr, derbyniodd Cymru gyllid canlyniadol o £117 miliwn y flwyddyn yn Natganiad yr Hydref. Mae’r arian hwn yn cael ei ddarparu'n llawn i lywodraeth leol drwy gyfuniad o'r Setliad a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg. Felly bydd angen i'r cyllid a ddarperir drwy'r Setliad hwn dalu'r costau sy'n deillio o gytundeb cyflog 2023/24 ym mlwyddyn Setliad 2023-24. Unwaith eto, rwyf wedi penderfynu darparu'r holl gyllid sydd ar gael o flaen llaw a pheidio â chadw cyllid yn ôl ar gyfer cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn o’r dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer 2023/24. Felly, rhaid i awdurdodau ystyried y costau hyn wrth gynllunio eu cyllidebau.

Rwy'n gwybod bod llywodraeth leol wedi bod yn wynebu pwysau sylweddol ac wedi ceisio cydnabod effaith chwyddiant ar safonau byw y rhai sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol yn ogystal â'r gymuned ehangach. Gobeithio bod y Setliad uwch hwn yn eich galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar eich cymunedau yn ogystal â chefnogi uchelgeisiau cenedlaethol a lleol ar gyfer y dyfodol.

Ochr yn ochr â’r Setliad rydym yn parhau i ddarparu cyllid i helpu llywodraeth leol i hepgor ffioedd claddu plant. Mae'r ymrwymiad cyffredin hwn yn sicrhau dull teg a chyson ledled Cymru.

Yn unol â’n pwyslais ar weithredu yn erbyn effeithiau tlodi, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddiogelu aelwydydd sy’n agored i niwed, incwm isel, rhag unrhyw ostyngiad yn y cymorth a ddarperir o dan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rydym yn gweithredu er gwaetha'r diffyg yn y cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi iddi ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor. Byddwn yn parhau i gynnal yn llawn unrhyw hawl i gymorth o dan ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023-24, ac rydym unwaith eto yn darparu £244 miliwn ar gyfer y cynllun yn y Setliad i gydnabod hyn.

Mae'r cyd-destun economaidd presennol, gan gynnwys chwyddiant uchel, yn rhoi pwysau sylweddol ar fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru. Mae'r pwysau hynny hefyd yn cael eu teimlo gan y gwasanaethau cyhoeddus y mae pob un ohonom dibynnu arnynt, ac sydd eu hunain yn ddibynnol ar y refeniw a godwyd trwy drethi lleol. Er mwyn cefnogi trethdalwyr yn ystod y cyfnod hwn rwy'n darparu pecyn o gymorth ardrethi annomestig gwerth mwy na £460 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Rwy'n cadw at y dull gweithredu a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac yn rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24. Mae hyn eto yn sicrhau na fydd swm yr ardrethi y mae busnesau a threthdalwyr eraill yn eu talu yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

Rwyf hefyd yn cyflwyno rhyddhad trosiannol gwerth £113 miliwn, a ariennir yn llawn, ar gyfer pob trethdalwr y bydd cynnydd o dros £300 yn ei filiau yn dilyn yr ymarfer ailbrisio a gynhelir ledled y DU gyfan, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2023.

Yn olaf, mae'r pecyn cymorth ardrethi annomestig hefyd yn darparu dros £140 miliwn o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru. Bydd trethdalwyr cymwys yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig o 75% drwy gydol 2023-24. Bydd cap o £110,000 ar y rhyddhad hwnnw fesul busnes ar gyfer yr holl weithgarwch a gynhelir ganddynt ledled Cymru. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r hyn a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

O ystyried y cynnydd yn y Setliad hwn, nid wyf yn bwriadu cynnwys terfyn isaf eleni ac rwyf wedi dyrannu'r holl gyllid sydd ar gael yn y Setliad hwn.

Eglurais y sefyllfa o safbwynt y cyllid cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru fel rhan o'm datganiad ar y Gyllideb ddydd Mawrth. Roedd y setliad a gawsom gan Lywodraeth y DU yn siomedig ac nid yw'n ddigonol i fodloni ein huchelgeisiau i fuddsoddi yn nyfodol Cymru, gyda'n cyllideb gyfalaf gyffredinol 8.1% yn is mewn termau real na'r flwyddyn bresennol.

Ar ôl inni adolygu ein cyllidebau cyfalaf, bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2023-24 yn parhau fel y nodir yng nghyllideb derfynol 2022-23, sef £180 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o £30 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. Bydd hyn yn parhau ar gyfer 2024-25.

Hyd yn oed wrth i ni ateb yr heriau a berir gan chwyddiant, ac ymateb i anghenion dyngarol sy'n deillio o ryfeloedd, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr angen i sicrhau pwyslais ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur a chyfrannu at gynllun Cymru Sero Net rydym wedi'i ddatblygu gyda'n gilydd. Ar wahân i hynny rwy'n darparu £20 miliwn o gyfalaf ym mhob blwyddyn i alluogi awdurdodau i ymateb i'n blaenoriaeth ar y cyd sef datgarboneiddio. Nid wyf wedi ystyried neilltuo cyllid refeniw i gefnogi ymateb awdurdodau i'r newid yn yr hinsawdd gan gydnabod bod rhaid i'n holl benderfyniadau ystyried sut i leihau ein hallyriadau parhaus a rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r awdurdodau i wneud hynny ac i reoli eu cyllidebau.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a thablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad fesul awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer awdurdodau unigol, sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig wedi'u hail-ddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Mae cyhoeddi'r Setliad yng nghanol mis Rhagfyr wedi ein galluogi i dynnu ar ffigurau diweddaraf y sylfaen drethu ar gyfer 2023-24, sy'n golygu na ddylai fod unrhyw newid rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol o ganlyniad i ddiweddariadau i'r sylfaen drethu. Er na allaf warantu na fydd unrhyw newidiadau eraill rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, oherwydd yr ansicrwydd ariannol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg na'r data sy'n sail i ddosbarthu'r Setliad hwn. Mae un newid wedi'i gynllunio ar gyfer y gyllideb derfynol y dylwn dynnu eich sylw ato, sef y bwriad i drosglwyddo cyllid ar gyfer y costau cyflogwr cynyddol sy'n gysylltiedig â phensiynau'r Awdurdod Tân ac Achub o grant i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn y setliad llywodraeth leol terfynol. Bydd eich swyddogion am sicrhau eu bod yn ystyried hyn gyda phob Awdurdod Tân ac Achub priodol yn ystod y trafodaethau arferol ar gyllid.

Mae'r Setliad hwn yn rhoi llwyfan sefydlog i chi ar gyfer cynllunio'ch cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a thu hwnt.

Rydw i a'm cydweithwyr wedi meithrin cysylltiadau agos â llywodraeth leol yn y cyfnod sy'n arwain at y Setliad hwn. Er bod hwn yn Setliad cymharol dda, sy'n adeiladu ar y gwell dyraniadau a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwy'n cydnabod bod y cyfraddau chwyddiant a brofwyd dros y misoedd diwethaf, a'r rhagolygon gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd lefelau chwyddiant sylweddol yn parhau, yn golygu y bydd angen i chi wneud penderfyniadau anodd o hyd wrth osod eich cyllidebau. Mae'n bwysig eich bod yn

meithrin cysylltiadau’n ystyrlon â'ch cymunedau lleol wrth ichi ystyried eich blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb pob awdurdod unigol yw pennu cyllidebau ac, yn ei thro, y Dreth Gyngor. Bydd angen ichi ystyried yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael i chi, yn ogystal â'r pwysau rydych yn ei wynebu, wrth bennu eich cyllidebau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Byddaf yn parhau i feithrin cysylltiadau agos â llywodraeth leol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn dechrau’r cyfnod ymgynghori ffurfiol o 7 wythnos ar y Setliad ar gyfer 2023-24. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Iau, 2 Chwefror 2023** fan bellaf. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Tim Evans: LGFPSettlement@llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn bositif neu'n andwyol) y byddai'r Setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydyn ni'n gwahodd sylwadau ynghylch a ellid llunio neu ddiwygio'r Setliad arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) pob ymatebwr gyda'r ymateb. Os nad ydych am gael eich adnabod fel awdur eich ymateb, sicrhewch eich bod yn datgan hynny yn glir yn eich ymateb.

Mae’n bosib y bydd copïau o'r ymatebion yn cael eu gosod yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, nodwch hynny’n glir yn eich ymateb. Caiff hyn ei ystyried yn sgil ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law erbyn y dyddiad terfyn cyn i'r dyfarniad terfynol gael ei wneud a'i gyhoeddi.

Atgoffir awdurdodau o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol sydd wedi eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo hynny'n berthnasol. Dylid asesu effeithiau’r opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid ichi hefyd ystyried eich dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi eich cynlluniau ar gyfer 2022-23.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government